Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 12fed, Gorffennaf, 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy, Cyng Ros Bellamy
Mr Des Davies, Swyddog Technegol. Mr Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Charlotte Leadbeater,

Cofnod 24/Gorffennaf / 06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E/13429 GAREJ SENGL AR WAHÂN, LLWYNHELIG LODGE, HEOL CAERFYRDDIN.
Sylw : Dim gwrthwynebiad i'r garej a'r stordy yn unig. Nid ar gyfer llety.

E/13534 AILOSOD FFENESTR SIOP A DRWS UPVC YN RHAI PREN (AILGYFLWYNIAD O E/08273)
. **Cytuno. Ar yr amod ei fod yn cydymffurfio ag argymhellion y swyddog cadwraeth**

E/13578 UN ANHEDDLE DEULAWR AR DIR YN 2, 'RED COTTAGES', HEOL CAERFYRDDIN
Cytuno. Yn amodol ei fod yn unol â'r cynllun datblygu unedol a bod ei ymddangosiad yn cydweddu gydag eiddo sydd gerllaw.

E/13619 NEWID DEFNYDD O SELER 2 YSTAFELL YN FFLAT UN YSTAFELL WELY (1 UNED), 5, HEOL Y FARCHNAD,
Gwrthwynebu yn seiliedig ar nifer o bryderon o ran iechyd a diogelwch, awyriad, diffyg golau naturiol, perygl o lifogydd o ddraeniau sydd y tu allan.

Cofnod 25/ Gorffennaf/ 06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Mae'r cais canlynol wedi'i **gymeradwyo** gan adran cynllunio'r Sir:-

E/12960 ADEILADU ESTYNIAD AIL LAWR YNG NGHEFN ADEILAD YN 97, HEOL RHOSMAEN

E/12164 AILOSOD NODWEDDION YN NHU FEWN BANC NAT WEST, 54, HEOL RHOSMAEN.

E/12912 NEWID DEFNYDD LLAWR ISAF YN 2 UNED SIOPA (A1&A2) YN CYNNWYS NEWID BLAEN DWY SIOP YN ÔL I ARDDULL FICTORAIDD TRADDODIADOL AR LAWR ISAF 5, HEOL Y FARCHNAD

E/13113 GWAITH GWELLA AC ATGYWEIRIO I IS ORSAF DRYDAN, TERAS YR ABATY

E/13140 ESTYNIAD DEULAWR YNG NGHEFN 4, HEOL Y GARREG LAS

E/13187 UN EIDDO ARFAETHEDIG AR Y LLAWR CYNTAF AC AIL. Y SIOP AR Y LLAWR ISAF I BARHAU, YN 68, HEOL RHOSMAEN

E/13188 UNED YCHWANEGOL FEL FFLAT UWCHBEN Y FFLAT LLAWR CYNTAF PRESENNOL YN 99, HEOL RHOSMAEN.

Cofnod 26/ Gorffennaf/ 06 Adroddiad ar lwybrau troed.

Adroddodd y Swyddog Technegol bod y toriad cyntaf wedi'i wneud ar y llwybrau troed. Mae Rheilffyrdd Prydain wedi'i gofyn i dorri ochr arall un llwybr troed. Adroddodd y Clerc bod Mr Kevin Thomas yn archwilio'r gwaith draenio sydd angen ei wneud ar lwybr troed Glynceirch

Cofnod 27 /Gorffennaf/ 06 Gohebiaeth

1. Mr Hedd Ladd Lewis- Sylwadau mewn perthynas â'r sgript ar y placiau Treftadaeth. Argymhellwyd bod y Clerc yn ateb ac yn trosglwyddo ei bryderon ymlaen at Cambria, y contractwyr a gomisiynodd y gwaith.

2. Cyng Edward Thomas mewn perthynas â'r diffyg arwyddion yn cyfeirio pobl at y toiledau cyhoeddus.
   Argymhellwyd bod y Clerc yn cysylltu â Gwasanaethau Technegol CSC yn gofyn iddynt osod arwyddion yn y mannau priodol.
3. Charlotte Arthur, CSC, yn gofyn am fanylion Sioe Llandeilo. Argymhellwyd bod y Clerc yn rhoi manylion.
4. Mr Paul Goff, Syrfëwr, yn gofyn am wybodaeth ar hen safle'r Tanerdy. Argymhellwyd bod y Clerc yn dweud wrtho am y Felin Ddŵr o'r 17eg ganrif gan roi cyfeiriad Cyngor Cymuned Manordeilo iddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00p.m.

Daeth y cyfarfod i ben am 8. 20 p.m.